# Y CABINET

# (CANOLFAN DDINESIG PORT TALBOT)

**Aelodau Bwrdd y Cabinet:** **22 CHWEFROR 2023**

Cynghorwyr: S.K.Hunt (Chairperson), S.A.Knoyle, N.Jenkins, D.M.Peters, J.Hurley, S.Harris, J.Hale, A.Llewelyn, W.F.Griffiths and S.Jones

**Swyddogion sy'n Bresennol:** N.Pearce, H.Jones, C.Griffiths, K.Jones, A.Jarrett, R.Crowhurst, C. Furlow-Harris, N.Clackmore, L.McAndrew a/ac J.Woodman-Ralph

**Gwahoddedigion**: Cynghorydd: P.Rogers (Cadeirydd Craffu)

---

1. **PENODI CADEIRYDD**

Cytunwyd i benodi'r Cynghorydd S Hunt yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod hwn.

2. **CYHOEDDIAD(AU) Y CADEIRYDD**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

3. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

4. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Bod cofnodion cyfarfod blaenorol Pwyllgor y Cabinet a gynhaliwyd ar 30 Tachwedd 2022 yn cael eu cymeradwyo fel cofnod cywir.

5. **BLAENRAGLEN WAITH 2022-2023**

Nodi Blaenraglen Waith 2022/23.

6. **CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD**

Ni dderbyniwyd cwestiynau gan y cyhoedd.

7. **HUNANASESIAD 2021/2022**

**Penderfyniad:**

Bod Hunanasesiad 2021/2022 yn cael ei gymeradwyo i'w gyhoeddi a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

I ddangos sut mae'r cyngor yn cyflawni'r ddyletswydd newydd a nodir yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, 'i bob cyngor yng Nghymru adolygu'n barhaus i ba raddau y mae'n bodloni'r 'gofynion perfformiad', hynny yw i ba raddau:

1. y mae'n arfer ei swyddogaethau yn effeithiol.
2. y mae'n defnyddio ei adnoddau yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol;
3. y mae ei lywodraethiant yn effeithiol er mwyn cyflawni'r uchod.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn, sy'n dod i ben am 9.00am ddydd Sul 26 Chwefror 2023.

8. **SEFYDLU FFORWM CYSWLLT AR GYFER CYRCHFAN ANTUR CWM AFAN**

**Penderfyniad:**

1. Rhoi cymeradwyaeth i'r cyngor gymryd rhan yn Fforwm Cyswllt ar gyfer Cyrchfan Antur Cwm Afan;
2. Bod y Cylch Gorchwyl y manylwyd arno yn Atodiad 1 i'r adroddiad yn cael ei nodi.

3. Bod yr Aelodau a'r Swyddogion fel y'u nodwyd yn Atodiad 1 i'r adroddiad a ddosbarthwyd yn cael eu penodi i'r Fforwm Cyswllt ar gyfer Cyrchfan Antur Cwm Afan.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**
Sefydlu fforwm cyswllt i gyfranogi gyda'r cyngor yn unol â chais Wildfox Resorts Afan Valley Limited mewn perthynas â datblygiad Cyrchfan Antur Cwm Afan.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**
Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn, sy'n dod i ben am 9.00am ddydd Sul 26 Chwefror 2023.

9. **<u>SEFYDLU PANEL CYNGHORI MEWN PERTHYNAS Â'R GANOLFAN RAGORIAETH FYD-EANG AR GYFER RHEILFFYRDD</u>**

**Penderfyniad:**

1. Bod Cylch Gorchwyl y Panel Cynghori ar gyfer y Ganolfan Ragoriaeth Fyd-Eang ar gyfer Rheilffyrdd fel y'i sefydlwyd gan Global Centre of Rail Excellence Ltd (GCRE) yn cael ei nodi.

2 .Bod y gwahoddiad i'r cyngor gan GCRE i gymryd rhan yn y rhaglen waith yn cael ei nodi.

3. Bod Arweinydd y Cyngor yn cael ei gymeradwyo fel cynrychiolydd y cyngor ar Bwyllgor Cymunedol y Panel Cynghori ar gyfer y Ganolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd.

4. Bod Arweinydd y Cyngor yn enwebu Aelodau amgen o'r Cabinet i fynychu Pwyllgor Cymunedol y Panel Cynghori ar gyfer y Ganolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd pe na bai'r Arweinydd yn gallu bod yn bresennol.

5. Bod Cyfarwyddwr yr Amgylchedd ac Adfywio yn cael ei gymeradwyo fel Swyddog Arweiniol y cyngor ar Bwyllgor Cymunedol y Panel Cynghori ar gyfer y Ganolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd.

6. Bod Cyfarwyddwr yr Amgylchedd ac Adfywio yn enwebu swyddog arall i fynychu Pwyllgor Cymunedol y Panel Cynghori ar gyfer y Ganolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd pe na bai'r Prif Weithredwr yn gallu bod yn bresennol.

7. Bod Aelodau Ward Onllwyn, y Creunant a Blaendulais yn dod yn gynrychiolwyr ward ar gyfer y Grŵp Cydgysylltu Lleol.

**Rheswm dros roi ar waith:**
Er mwyn cyflawni canlyniadau a gwerth i'r diwydiant rheilffyrdd ac ynni wrth ffurfio cynrychiolwyr y Cyngor i'r gwahanol bwyllgorau, a sefydlwyd gan y panel cynghori.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**
Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn sy'n dod i ben am 9.00am ddydd Sul, 26 Chwefror 2023.

10. **<u>CAM UN YR ADOLYGIAD LLETY</u>**

**Penderfyniad:**
Ar ôl rhoi sylw dyledus i gam cyntaf yr Asesiad Effaith Integredig,

1. rhoi cymeradwyaeth i gau pump o adeiladau swyddfa staff gweithredol Cyngor Castell-nedd Port Talbot (fel y nodir yn yr adroddiad hwn) a datgan nad oes angen yr adeiladau hynny mwyach o 31 Mawrth 2023.

2. Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Pennaeth Eiddo ac Adfywio gyflwyno'r hysbysiadau priodol yn ildio unrhyw fuddiant prydlesol mewn adeiladau o'r fath.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**
Er mwyn sicrhau mwy o resymoli o ran adeiladau'r cyngor ar gyfer staff swyddfa a sicrhau arbedion ariannol.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**
Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod 3 diwrnod galw i mewn sy'n dod i ben am 9.00am ddydd Sul 26 Chwefror 2023.

11. **<u>ADRODDIAD MONITRO'R GYLLIDEB GYFALAF 2022/2023 - FEL YR OEDD AR DDIWEDD MIS RHAGFYR 2022</u>**

**Penderfyniad:**
1. Bod y gyllideb ddiweddaredig arfaethedig ar gyfer 2021/2022, sef cyfanswm o £54.122m, yn cael ei chyflwyno i'r cyngor i'w chymeradwyo.

2. Nodi'r sefyllfa mewn perthynas â gwariant ar 31 Rhagfyr 2022.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**
I gydymffurfio â chyfansoddiad y cyngor mewn perthynas â throsglwyddo'r gyllideb, ailbroffilio rhwng blynyddoedd ariannol a diweddaru amcanestyniadau cyllideb y cyngor ar gyfer 2022/23.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**
Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn sy'n dod i ben am 9.00am ddydd Sul, 26 Chwefror 2023.

12. **ADRODDIAD MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW 2022/2023 - FEL YR OEDD AR DDIWEDD MIS RHAGFYR 2022**

**Penderfyniad:**
1. Nodi cynnwys yr adroddiad hwn mewn perthynas ag alldro'r gyllideb ragamcanol gyfredol a chronfeydd wrth gefn.

2. Cymeradwyo'r trosglwyddiadau, fel y'u hamlinellir yn yr adroddiad.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**
Er mwyn cydymffurfio â chyfansoddiad y cyngor mewn perthynas â throsglwyddiadau cyllidebol.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**
Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod 3 diwrnod galw i mewn sy'n dod i ben am 9.00am ddydd Sul 26 Chwefror 2023.

13. **ADRODDIAD RHEOLI'R TRYSORLYS 2022/2023**

**Penderfyniad:**
Dylid nodi'r adroddiad.

14. **ADRODDIAD ADOLYGU CANOL BLWYDDYN RHEOLI'R TRYSORLYS 2022/2023**

**Penderfyniad:**
Nodi gweithgareddau Rheoli'r Trysorlys hyd yma yn ystod y flwyddyn ariannol hon, a sut y maent yn berthnasol i'r gweithgareddau arfaethedig yn nogfennau gwreiddiol Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a Datganiadau Strategaeth Fuddsoddi Blynyddol 2022/2023.

15. **ADRODDIAD MONITRO'R GOFRESTR RISGIAU**

**Penderfyniad:**
Nodi'r risgiau fel y'u nodir yn Atodiad 1 i'r adroddiad a ddosbarthwyd.

16. **EITEMAU BRYS**

Nid oedd unrhyw eitemau brys.

**CADEIRYDD**